Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Amser Hamdden

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 8.

Dull

Pastiwch yr wyth llun ar ddarn o gerdyn. Bydd isio dwy set o gardiau os oes hyd at 16 yn y dosbarth.

Pwrpas y gweithgarwch yw casglu gwybodaeth am y gweithgareddau hamdden a'r bobl a ddisgrifir yn y lluniau. Argymhellir defnyddio'r rhain ond mae modd amrywio.

Oes 'na ddyn yn y llun? Oes/Nac oes
Oes 'na ddynes yn y llun? Oes/Nac oes
Be' mae o'n wneud?
Be' mae hi'n wneud?
Ydy o'n hoffi.....?
Ydy hi'n hoffi.....?
Ydy/Nac ydy

Dylai pawb grwydro a gofyn cwestiynau i bawb arall. Ni ddylai unrhyw aelod ddangos ei gerdyn i neb arall. Y gamp yw casglu gwybodaeth am yr hyn sydd yn y 7 llun arall trwy drafod a gwneud nodiadau ar ddarn o bapur.

Ar ddiwedd y gweithgarwch, dylai'r tiwtor gasglu'r darnau ynghyd a threfnu i bawb fynd i grwpiau o 3-5. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio'r nodiadau i geisio ailgreu'r lluniau ar ddarn o bapur. Ar y diwedd, dylid rhoi cyfle iddynt weld y lluniau gwreiddiol i gyd.

Argymhellir sicrhau bod y dosbarth yn gyfarwydd â'r geiriau hyn cyn dechrau:

Coginio
Chwarae pêl-droed
Rhedeg
Dawnsio
Chwarae bando (hoci traddodiadol)
Garddio
Gwylio S4C
Cysgu

Taflen y Tiwtor

Mynediad

< Taflen y Myfyrwyr >

Amser Hamdden